**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd

Adroddiad Ymchwilio
Gorffennaf 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.


**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
Tom Jackson – Clerc y Pwyllgor
Annette Millett – Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Karl Gomila – Swyddog Cymorth y Pwyllgor

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**
Neil Cox – Arbenigwr y Pwyllgor

**Gwasanaeth Cyfreithiol**
O Gwyn Griffiths – Cynghorydd Cyfreithiol



Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**



I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Karl.Gomila@wales.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd

Adroddiad Ymchwilio
Gorffennaf 2009

# Adroddiad Ymchwilio
# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
# Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd


| CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor | 4 |
| Rhagair y Cadeirydd | 5 |
| Crynodeb o'r argymhellion | 6 |
| Cyflwyniad | 8 |
| Gwybodaeth gefndirol am gyrff sy'n cyfrannu at ddatblygu'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru | 11 |
| Y cyd-destun deddfwriaethol | 15 |
| Dadansoddi'r dystiolaeth | 17 |
| Mater allweddol 1: Pwysigrwydd dull gweithredu strategol | 20 |
| Mater allweddol 2: Pwysigrwydd arian a chymorth | 26 |
| Mater allweddol 3: Pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth | 29 |
| Mater allweddol 4: Awdurdodau lleol a gweithio ar draws Cymru gyfan | 32 |
| Mater allweddol 5: Rôl cyhoeddi | 36 |
| Mater allweddol 6: Rhwystrau a chymorth i ymarferwyr sy'n gweithio ym maes y celfyddydau | 38 |
| Atodiadau | |
| • Atodiad 1 - Rhestr o'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a ddaeth i law | 41 |
| • Atodiad 2 - Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor | 44 |
| • Atodiad 3 - Rhestr o bapurau'r Pwyllgor | 45 |

## Aelodau'r Pwyllgor



**Janice Gregory**
**(Cadeirydd)**
Llafur
Ogwr



**Eleanor Burnham**
Democratiaid
Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



**Alun Cairns**
Plaid Geidwadol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Lesley Griffiths**
Llafur
Wrecsam



**Mark Isherwood**
Plaid Geidwadol Cymru
Gogledd Cymru



**Bethan Jenkins**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Dai Lloyd**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Lynne Neagle**
Llafur
Tor-faen



**Joyce Watson**
Llafur
Canolbarth a Gorllewin
Cymru

Dirprwyodd Eleanor Burnham ar ran Peter Black yn y cyfarfod Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2009.
Dirprwyodd Alun Cairns ar ran Paul Davies yn y cyfarfod Pwyllgor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2009.
Dirprwyodd Bethan Jenkins ar ran Nerys Evans yn y cyfarfod Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Chwefor 2009.

## Rhagair y Cadeirydd

"No culture can live if it attempts to be exclusive."



Mae gan Gymru lawer iawn i'w ddathlu o ran ei chelf a'i diwylliant, ac mae ymroddiad artistiaid sy'n ein hysbrydoli gyda'u gwaith wedi creu argraff fawr arnaf yn ystod yr ymchwiliad hwn. Mae'n bosibl y gall hyrwyddo celf a diwylliant Cymru ein helpu i adeiladu pontydd ac i lunio perthnasoedd â phobl ar draws y byd, gall greu cyfleoedd newydd ar gyfer masnach a busnes, a chreu cyfleoedd ar gyfer dysgu oddi wrth wledydd a diwylliannau eraill.

Credaf fod cynllun strategol y gellir ei gyfleu'n rhwydd yn hynod o bwysig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, oherwydd bydd yn galluogi i adnoddau sydd gennym ganolbwyntio ar sicrhau gwell canlyniadau. Mae Cymru'n gartref i ddigwyddiadau ac yn ymwneud mewn digwyddiadau y mae modd iddynt hyrwyddo celf a diwylliant y wlad i filiynau o bobl trwy'r byd, sef Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen, Gŵyl Jazz Aberhonddu, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Gŵyl Lenyddiaeth y Gelli Gandryll, Gŵyl y Faenol, Artes Mundi, y Venice Biennale, Gŵyl Bywyd Gwerin Smithsonian ymhlith eraill. Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio cyfleoedd y gall y digwyddiadau hyn eu cynnig, a rhoi i artistiaid Cymru y gefnogaeth angenrheidiol i hyrwyddo ein gwlad gymaint fyth ag y gallant.

Caf fy nghalonogi felly fod Llywodraeth Cymru yn trin hyrwyddo diwylliant gyda'r difrifoldeb dyledus, ac mae'n ddiweddar wedi cynnig gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar ddiwylliant a meysydd eraill, a fydd yn arwain o bosibl at gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant. Os byddant yn llwyddiannus fodd bynnag rhaid i gamau o'r fath gael eu cymryd ar y cyd â datblygu cynllun strategol clir ar gyfer hyrwyddo celf a diwylliant Cymru'n ehangach,

Hoffwn, ar ran y Pwyllgor, ddiolch i'r holl unigolion a sefydliadau y bu i ni elwa o'u profiad a'u cyngor mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, yn ystod ymweliadau, neu a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth. Hoffwn hefyd ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant am eu hymrwymiad cadarn i'r ymchwiliad hwn.



**Janice Gregory**
**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

## Crynodeb o'r argymhellion

**Argymhelliad 1**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru (y cyfeirir ati o hyn allan fel Llywodraeth y Cynulliad) yn adnewyddu ei fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

**Argymhelliad 2**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi ymrwymiad cadarn i hwyluso'r strategaeth ddiwylliant newydd.

**Argymhelliad 3**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu gwefan wales.com yn wefan awdurdodol y mae pobl yn troi ati i gael gwybodaeth am Gymru. Dylai'r wefan ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chymryd y cyfle i hyrwyddo nifer fawr o bynciau, gan gynnwys busnes, buddsoddi, y celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth, a'r cyfan hyn dan frand cyson hawdd ei adnabod.

**Argymhelliad 4**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n cydweithio er mwyn manteisio cymaint ag sy'n bosibl ar yr arian sydd ar gael (gan gynnwys arian Ewropeaidd) i gefnogi celfyddydau a diwylliant Cymru dramor.

**Argymhelliad 5**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n archwilio gwell ffyrdd o annog a chynorthwyo'r cyhoedd i gefnogi'r celfyddydau.

**Argymhelliad 6**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu cynllun gweithredu manwl sy'n gysylltiedig â'i fframwaith strategol. Dylai'r cynllun nodi cyfleoedd penodol, megis y rhai a grëir gan unigolion a chwmnïau celfyddydau teithiol o Gymru, i greu cysylltiadau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru dramor. At hynny, dylai'r cynllun ddatgan sut y bydd pob adran yn Llywodraeth y Cynulliad a phob corff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru'n cyfrannu at y strategaeth, a'r gwaith o'i chyflwyno a'i hadolygu trwy weithio gyda'i gilydd. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth y Cynulliad drafod â

phrifysgolion er mwyn archwilio'u profiadau o gysylltiadau rhyngwladol a dysgu o'r profiadau hynny.

**Argymhelliad 7**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut y gall darparu celfyddyd yn rhanbarthol ac yn lleol, yn ogystal ag ar draws Cymru gyfan, gyfrannu at bresenoldeb diwylliannol rhyngwladol Cymru yn genedlaethol, yn benodol felly yn ei gwaith paratoi ac ymgynghori wrth ddatblygu ei strategaeth ddiwylliant newydd a'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar Ddiwylliant a meysydd eraill.

**Argymhelliad 8**

Rydym wedi argymell y dylai ymdrechion ein hadrannau a'n hasiantaethau diwylliannol gael eu cydlynu'n well, ac ystyriwn y dylai hyn ymestyn i waith ein hasiantaethau llenyddol. Rydym hefyd yn argymell y dylid datblygu gallu rhwng ein hasiantaethau er mwyn creu canolfan gyfieithu i Gymru.

**Argymhelliad 9**

Wrth ymgynghori ar y strategaeth ddiwylliant newydd, rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y cyfyngiadau ariannol a'r rhwystrau eraill y mae artistiaid yn eu hwynebu.

**Argymhelliad 10**

Rydym yn argymell bod Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n ystyried sut y gallant fod yn fwy rhagweithiol wrth farchnata eu gwasanaethau er mwyn ymwneud â'r ymarferwyr hynny sy'n gweithio ym maes y celfyddydau o ddydd i ddydd.

**Argymhelliad 11**

Rydym yn argymell bod Celfyddydau Rhyngwladol Cymru'n darparu ac yn marchnata gwasanaeth cymorth sydd â'r nod o ddarparu cyngor a chymorth diplomyddol i helpu artistiaid i ymdrin â'r anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â mynd â'u gwaith dramor.

# Cyflwyniad

1. Yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2008, cytunodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar gylch gwaith ar gyfer cynnal ymchwiliad i '*Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd*'.

2. Yn rhan o'r ymchwiliad hwn casglodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 3 Rhagfyr 2008 a 26 Chwefror 2009, ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig. Yn ystod y broses hon, casglwyd tystiolaeth gan ystod eang o dystion, gan gynnwys Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Dreftadaeth, cynrychiolwyr cyrff a noddir gan y llywodraeth, arbenigwyr academaidd, sylwedyddion gwybodus ac ymarferwyr ym maes y celfyddydau a diwylliant. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd dystiolaeth am gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

### *Cylch gwaith*

3. Ar 19 Tachwedd 2008, cytunwyd y byddem yn adolygu'r canlynol:

- Polisi trosfwaol, strategaethau a chynlluniau gweithredu cysylltiedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru dramor; y modd y mae Adrannau a Gweinidogion Cymru'n cydweithio ac yn cydweithredu; a'r modd y caiff llwyddiant ei fesur.

- Y gwahanol strategaethau ar gyfer y celfyddydau a diwylliant sydd ar waith yng Nghymru, gan gynnwys gwaith y Cyngor Prydeinig a strategaethau eraill sy'n cael eu gweithredu ar draws y DU ac sy'n berthnasol i Gymru, y modd y cânt eu cydlynu a'r modd y caiff arian ei ddyrannu.

- Y cyfleoedd sydd ar gael i bobl gymryd rhan mewn celfyddydau Cymreig a chael mynediad iddynt ar lwyfan y byd.

4. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn chwilio am atebion i'r cwestiynau canlynol:

- Sut mae strategaethau cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant ar lwyfan y byd yn cael eu gweithredu a'u cydlynu?

- Beth yw prif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Prydeinig o ran hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru'n rhyngwladol: h.y. ar beth mae'r ymdrechion a'r arian yn canolbwyntio'n bennaf er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl?

- A oes digon o waith ymchwil yn cael ei wneud i feysydd unigryw/meysydd lle ceir twf yng nghelfyddydau a diwylliant Cymru? Sut mae'r rhain yn cael eu cefnogi? A yw'r cydbwysedd presennol yn iawn?

- Sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod ymdrechion i hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant yn rhyngwladol yn cael eu cydlynu rhwng portffolios Gweinidogion ac Adrannau (er enghraifft, ym

meysydd addysg a sgiliau, datblygu economaidd, twristiaeth, treftadaeth, y celfyddydau a diwylliant, cysylltiadau diwylliannol rhyngwladol, materion Ewropeaidd a materion allanol)?

- Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n datblygu dyletswydd ddiwylliannol statudol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Sut gallai hyn gyd-fynd â'r gwaith o hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lefel ryngwladol?

- A yw canlyniadau gwaith hyrwyddo ac ariannu'n cael eu mesur a'u gwerthuso'n ddigonol i sicrhau gwerth am arian i'r cyhoedd?

- Pa mor effeithiol yw'r trefniadau partneriaeth rhwng cyrff sy'n gweithio ym maes y celfyddydau a diwylliant, megis y Cyngor Prydeinig a Llywodraeth y Cynulliad, wrth gefnogi strategaeth drosfwaol?

- I ba raddau y mae cyrff lleol sy'n gweithio ym maes y celfyddydau a diwylliant yn llwyddo i hyrwyddo eu gwaith ar lwyfan y byd, a pha gymorth y maent yn ei gael i wneud hyn?

- Sut mae polisïau a strategaethau Llywodraeth y Cynulliad yn cyd-fynd â pholisïau a strategaethau Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn enwedig o ran eu hymdrechion i wneud y DU yn 'ganolfan greadigol fyd-eang', yng nghyd-destun Olympiad Diwylliannol 2012?

- Sut y caiff cyfle cyfartal ei ystyried wrth hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru yn rhyngwladol?

**Beth yw 'llwyfan y byd'?**

5. Roedd y rhan fwyaf o'n tystion yn teimlo bod 'llwyfan y byd' yn golygu 'y byd y tu allan i Gymru', gan gynnwys gweddill y Deyrnas Unedig. Roeddem o'r farn bod hyn yn gwneud synnwyr, gan fod Cymru'n wahanol yn ddiwylliannol i'w chymdogion, ac mae datganoli wedi golygu ein bod wedi magu hyder yn ein llais ni ein hunain trwy weithredu polisïau sydd wedi'u teilwra i'n hanghenion ni. Clywsom gan gwmnïau teithiol sy'n gweithio ar draws ffiniau'r DU yn rheolaidd, megis Opera Cenedlaethol Cymru, Syrcas Nofit State a Volcano Theatre. Roedd y sefydliadau hyn yn ystyried bod gweithio dros y ffin yn rhan bwysig o'u rôl wrth godi proffil eu gwaith yng ngwledydd y DU ac yn rhyngwladol, a'i fod yn ddangosydd o ansawdd eu gwaith hefyd. Er enghraifft, dywedodd Syrcas Nofit State:

> *"…for most companies success on an international stage is one of the clearest indications of the quality of work created."*[1]

**Beth yw'r 'celfyddydau a diwylliant'?**

6. Yn ein hymchwiliad, nid ydym wedi ceisio cyfyngu'n gaeth ar yr hyn y mae'r term 'celfyddydau a diwylliant' yn ei olygu i ni. Yn hytrach, rydym wedi

[1] Syrcas Nofit State – tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor

ceisio cael cyfraniadau gan ystod eang o randdeiliaid sy'n cyfrannu at gelfyddydau a diwylliant Cymru, sy'n cynnwys artistiaid gweledol, y celfyddydau perfformio, darlledu, y byd academaidd, yn ogystal â'r cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am gefnogi'r celfyddydau a diwylliant. Mae'r adran sy'n dilyn yn rhoi gwybodaeth gefndirol am rai o'r rhanddeiliaid hyn.

## Gwybodaeth gefndirol am gyrff sy'n cyfrannu at ddatblygu'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru

7. Ceir cymysgedd gymhleth o gyrff sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, ac sy'n cyfrannu at y gwaith hwn. Mae'r adran hon yn egluro pwy yw'r prif gyrff. Gellir rhannu'r cyrff hyn yn ddosbarthiadau bras fel a ganlyn: 'y llywodraeth neu gyrff a noddir gan y llywodraeth', 'sylwedyddion gwybodus' ac 'ymarferwyr'.

- **Y llywodraeth a chyrff a noddir gan y llywodraeth**

***Llywodraeth y Cynulliad***

8. Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae'n dirprwyo peth o'i chyfrifoldeb i amryw o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n cynnwys: Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac Amgueddfa Cymru. Ceir dirprwyo pellach o Gyngor Celfyddydau Cymru i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru ar y cyd â'r Cyngor Prydeinig i hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru dramor.

9. Ar y lefel uchaf, mae cytundeb clymblaid Cymru'n Un Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'n glir bod diwylliant yn thema ganolog a thrawsbynciol, gan ddatgan:

> "*Mae hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant cyfoethog ac amrywiol yn rhan ganolog o'r rhaglen lywodraethu yn Cymru'n Un.*"[2]

10. Yn ogystal, ceir ymrwymiad yn Cymru'n Un i godi proffil rhyngwladol Cymru, gan sicrhau bod Cymru'n wlad y mae pobl yn dewis byw, gweithio ac astudio ynddi, ymweld â hi a chynnal gweithgareddau busnes ynddi.

11. Mae llawer o'r arian sydd ar gael i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a diogelu celfyddydau a diwylliant Cymru'n tarddu o Lywodraeth y Cynulliad, ac mae'n llifo trwy'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb unigol am gyfrannu at weithredu ymrwymiadau Cymru'n Un, ac sy'n gyfrifol am weithredu gwahanol agweddau ar y gwaith o ddatblygu'r celfyddydau a diwylliant a darparu'r arbenigedd angenrheidiol ar gyfer gwneud hynny.

12. Mae Adran Prif Weinidog Cymru'n gyfrifol am 'roi Cymru ar y map'. Mae'r Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol yn goruchwylio hyn ac unrhyw gydlynu sy'n digwydd ag adrannau perthnasol eraill y llywodraeth, gan gynnwys Adran yr Economi a Thrafnidiaeth sy'n gyfrifol am Fusnes Rhyngwladol Cymru a gweithgarwch Croeso Cymru yr Adran Dreftadaeth. Yn ogystal â hyn, mae gan Lywodraeth y Cynulliad strategaeth ddiwylliant, a gyhoeddwyd yn 2002 ac sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

---

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

### *Cyngor Celfyddydau Cymru*

13. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n gorff a ffurfiwyd dan Siarter Frenhinol ac yn elusen gofrestredig yn ogystal ag yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae ei flaenoriaethau strategol fel a ganlyn: hyrwyddo'r celfyddydau; gweithredu Adroddiad Stephens[3]; datblygu theatr ac archwilio modelau ariannu ar gyfer y dyfodol, a mynd ati'n weithredol i ymchwilio i gyfleoedd i gael arian o Ewrop.[4]

14. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n ceisio datblygu a gwella dealltwriaeth ac arfer mewn perthynas â'r celfyddydau, a sicrhau bod y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru.

### *Y Cyngor Prydeinig*

15. Y Cyngor Prydeinig yw sefydliad rhyngwladol y DU ar gyfer cyfleoedd addysgol a chysylltiadau diwylliannol. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol, yn gorfforaeth gyhoeddus (o safbwynt cadw cyfrifon) ac yn elusen. Ei ddiben yw cael eraill i ymwneud â'r DU ac ymddiried ynddi trwy gyfnewid gwybodaeth a syniadau rhwng pobl ar draws y byd. Mae'r Cyngor yn cynnal rhaglenni mewn tri maes sydd o bwysigrwydd canolog i fuddiannau rhyngwladol y DU: cynnal trafodaeth ryngddiwylliannol, yn enwedig â gwledydd a chymunedau sydd â llai o ffydd yn y DU; cefnogi economi wybodaeth ac economi greadigol y DU; a thynnu sylw at yr achos dros fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

16. Mae'r Cyngor Prydeinig yn cael cyngor arbenigol gan y tri Phwyllgor Cenedlaethol (ar gyfer Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon), a thri Grŵp sy'n cynghori ar sectorau penodol sef addysg a llywodraethu, Saesneg, gwyddoniaeth a pheirianneg. Mae ganddo Grŵp Celfyddydau hefyd, sy'n cynnwys tîm sydd â'r dasg ganlynol: cynnull y gorau o ddoniau creadigol Prydain i ddatblygu rhaglenni arloesol a fydd yn cysylltu â miloedd o bobl ar draws y byd, gan eu hannog i gael perthynas agosach â'r DU.[5]

17. Mae gan y Cyngor Prydeinig gyfrifoldebau mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys cerddoriaeth, drama, dawns, y celfyddydau gweledol, dylunio, pensaernïaeth, ffilm, llenyddiaeth, y cyfryngau newydd, rheoli amgueddfeydd a'r economi greadigol. Mae arbenigwyr amlddisgyblaethol ym maes y celfyddydau wedi'u lleoli mewn swyddfeydd yng Nghaerdydd,

---

[3] Cyhoeddwyd adroddiad Stephens, o'r enw *Cyrchddull Allwedd Ddeuol Datblygiad Strategol y Celfyddydau yng Nghymru*, ar 29 Tachwedd 2006, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2006. Roedd yn cynnwys canfyddiadau panel adolygu annibynnol a oedd â'r dasg o archwilio'r canlynol: rôl Cyngor y Celfyddydau nawr ac yn y dyfodol mewn perthynas ag ariannu'r celfyddydau (gan gynnwys y sefydliadau cenedlaethol sy'n ymwneud â'r celfyddydau), datblygu'r celfyddydau, a gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch ac yn fwy cynhwysol er mwyn helpu i leihau anghydraddoldebau cymdeithasol; rôl Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol; a'r modd y caiff y celfyddydau eu hariannu mewn gwledydd eraill, o ran y lefelau ariannu a'r dulliau o'u hariannu, a allai fod yn berthnasol yng nghyd-destun Cymru.

[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Llythyr cylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru 25.03.08 - http://www.artswales.org.uk/publications/ACW%20Remit%20Letter%202008-09%20(25.03.08)%20-%2-Welsh.pdf

[5] Gwefan y Cyngor Prydeinig: http://www.britishcouncil.org/arts-about-us-what.htm

Caeredin a Belfast. Yn wahanol i Gynghorau Celfyddydau'r DU, nid yw'n sefydliad sy'n ariannu'r celfyddydau; yn hytrach mae'n ceisio:

> "use the arts to respond to the UK's international strategic and geographical priorities by promoting the debate of issues and ideas, challenging opinions and increasing understanding between cultures."[6]

### *Celfyddydau Rhyngwladol Cymru*

18. Sefydlwyd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ym 1997 yn bartneriaeth strategol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig.[7] Yn ymarferol mae hyn yn golygu bod Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig yn rhannu adnoddau ariannol ac adnoddau dynol. Mae'n gweithio i hybu gwybodaeth am ddiwylliant cyfoes Cymru ac annog y broses o gyfnewid gwybodaeth a chydweithio'n rhyngwladol.
Mae llawer o weithgarwch rhyngwladol uniongyrchol Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhan o raglen Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

19. Mae prif amcanion Celfyddydau Rhyngwladol Cymru fel a ganlyn:
- helpu i ddatblygu a chefnogi cyfleoedd rhyngwladol cydweithredol ar gyfer artistiaid unigol a sefydliadau'n ymwneud â'r celfyddydau/diwylliant yng Nghymru,
- annog cyflwynwyr a hyrwyddwyr yng Nghymru i drefnu rhaglenni rhyngwladol,
- sicrhau bod gan Gymru broffil uchel yn y Cyngor Prydeinig a'i swyddfeydd tramor,
- cynyddu ymwneud ymarferwyr yng Nghymru â rhwydweithiau a mentrau rhyngwladol.[8]

### *Amgueddfa Cymru*

20. Mae Amgueddfa Cymru'n gorff a sefydlwyd dan Siarter Frenhinol ac yn elusen gofrestredig yn ogystal ag yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. Amcanion strategol allweddol y corff yw sicrhau bod casgliadau'r amgueddfa'n hygyrch trwy Gymru gyfan, a sicrhau bod proffil casgliadau a gweithgareddau ymchwil yr amgueddfa'n cael ei ddatblygu ar lefel y DU ac yn rhyngwladol.[9]

### *Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

21. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n gorff a sefydlwyd dan Siarter Frenhinol ac yn elusen gofrestredig yn ogystal ag yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i'r Llyfrgell wneud y canlynol:
- datblygu a gweithredu polisïau a strategaethau i adlewyrchu gofynion defnyddwyr y llyfrgell yn yr unfed ganrif ar hugain, ac ymateb i'r gofynion hynny;
- cynyddu ei chynulleidfa;

---
[6] British Council website: http://www.britishcouncil.org/arts-about-us-what.htm
[7] Creu 2013 - Strategaeth 5 mlynedd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
[8] Gwefan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru: http://www.wai.org.uk
[9] Llywodraeth Cynulliad Cymru – llythyr cylch gwaith Amgueddfa Cymru – 25.03.08

- mynd â gwybodaeth at y defnyddiwr trwy ddigideiddio;
- cynnal mynediad i ddefnyddwyr;
- gweithio'n agos gyda chyrff perthnasol eraill, megis Amgueddfa Cymru;
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Llyfrgell.[10]

***Llywodraeth leol***

22. Mae Llywodraeth leol yn cynnwys y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, a gaiff eu cynrychioli gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a nododd y canlynol:

> *"Local authorities deliver arts provision locally as a discretionary service and aim to provide citizens with diverse, quality opportunities to participate in arts activities, develop artistic and cultural skills, and to experience and enjoy a range of art and cultural events locally."*[11]

23. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd, er nad oedd gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol mewn perthynas â diwylliant ar hyn o bryd, roeddent yn cydnabod manteision y celfyddydau a diwylliant a'r rôl y gallant ei chwarae wrth eu hyrwyddo.

- **Sylwedyddion gwybodus**

24. Mae sylwedyddion gwybodus yn cynnwys y rhanddeiliaid hynny sydd â diddordeb yn y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, megis darparwyr newyddion, ymgynghorwyr, darlledwyr a phrifysgolion.

- **Ymarferwyr**

25. Mae ymarferwyr yn cynnwys y nifer fawr o artistiaid a chyrff sy'n cyfrannu mewn modd cadarnhaol at gelfyddydau, diwylliant a threftadaeth Cymru. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, rydym wedi clywed gan ystod eang o ymarferwyr, gan gynnwys cwmnïau theatr, cwmnïau opera ac artistiaid gweledol. Mae llawer o'r ymarferwyr hyn yn cael arian gan y llywodraeth trwy un o'r rhaglenni ariannu priodol a gaiff eu gweinyddu gan y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

---

[10] Llywodraeth Cynulliad Cymru – llythyr cylch gwaith Llyfrgell Genedlaethol Cymru – 31.03.08

[11] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-ccc-home/cc_inquiries/nafw_arts-home/nafwcc_3_arts/nafw_cc3-arts-written_responses/nafw_cc3-arts-16.htm

## Y cyd-destun deddfwriaethol

26. Yn fras, mae 'diwylliant' yn gyfrifoldeb sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth y Cynulliad.

27. Dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, mae gan Lywodraeth y Cynulliad y grym i ofyn am gael cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y gall lunio cyfreithiau newydd, a elwir yn Fesurau, mewn perthynas ag ystod o bynciau gan gynnwys Diwylliant.

28. Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o fwriad Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno cynnig am orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â 'Diwylliant'.

29. Gosododd y Gweinidog dros Dreftadaeth Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar Ddiwylliant a meysydd eraill gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Mehefin 2009. Wrth gyflwyno'r Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Gweinidog:

> "Ar hyn o bryd mae Maes Diwylliant (3) a Maes cysylltiedig 2 (henebion ac adeiladau hanesyddol) yn Rhan 1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn wag. Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn yn ffordd o ddechrau llenwi'r bylchau hyn.
>
> O'i gymeradwyo, byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn rhoi'r pŵer, drwy Fesur, i'r Cynulliad roi ymrwymiad '*Cymru'n Un'* ar waith, sef rhoi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant ac annog partneriaeth i gynnig profiadau diwylliannol o safon uchel i'w cymunedau.
>
> Mae'r cymhwysedd yn ymwneud â swyddogaethau diwylliannol awdurdodau lleol ac mae'n gysylltiedig yn benodol â thair elfen darpariaeth ddiwylliannol yr awdurdodau lleol, sef 'cefnogi', 'gwella' a 'hyrwyddo'. I'r perwyl hwn, bydd y cymhwysedd yn gwireddu'n llawn y nod polisi yn Cymru'n Un, er enghraifft drwy swyddogaethau awdurdodau lleol fel cynllunio, ymgynghori, cydweithio/cydweithredu, cymorth ariannol neu gymorth arall, hyrwyddo etc.
>
> "Mae'r cymhwysedd yn ymestyn i Faes 2 (henebion ac adeiladau hanesyddol) ac 16 (chwaraeon a hamdden), yn ogystal â Maes 3 (diwylliant), fel bod y pŵer yn cwmpasu'r ystod lawn o weithgareddau a gwasanaethau diwylliannol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru."[12]

30. Mae'r adran olaf ynghylch "Awdurdodau lleol a gweithio ar draws Cymru gyfan" yn dangos yr effaith bosibl y gallai dyletswydd statudol ei chael o'i chymharu â'r pwerau disgresiwn presennol, a cheir eglurhad pellach ynghylch hyn ym Memorandwm Esboniadol y Llywodraeth mewn perthynas â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig. Er hynny, gall y broses o geisio cael cymhwysedd deddfwriaethol trwy Orchymyn

[12] Y Gweinidog dros Dreftadaeth, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Ddiwylliant a meysydd eraill, 15.06.09.

Cymhwysedd Deddfwriaethol, a'r broses ddilynol o ddrafftio Mesur, ymgynghori yn ei gylch a chraffu arno o safbwynt deddfwriaethol fod yn faith.

31. Felly, mae'n werth nodi darpariaethau adran 61 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn llawn -
"Cefnogi diwylliant ac ati.
Gall Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried yn briodol i gefnogi'r canlynol -
(a) gweddillion archeolegol yng Nghymru,
(b) henebion yng Nghymru,
(c) adeiladau a lleoedd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol yng Nghymru,
(ch) drylliadau hanesyddol yng Nghymru,
(d) celfyddydau a chrefftau'n ymwneud â Chymru,
(dd) amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru
(e) llyfrgelloedd yng Nghymru,
(f) archifau a chofnodion hanesyddol yn ymwneud â Chymru,
(ff) gweithgareddau a phrosiectau diwylliannol yn ymwneud â Chymru,
(g) chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn ymwneud â Chymru,
(ng) yr iaith Gymraeg."

32. Byddai'r pwerau galluogi helaeth iawn hyn yn ddigon i alluogi'r Llywodraeth i weithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn. Yr unig eithriadau fyddai newidiadau deddfwriaethol megis y rheini a gynigwyd gan y Llywodraeth mewn perthynas ag awdurdodau lleol, neu unrhyw beth a fyddai'n mynd yn groes i Siarteri'r Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru neu Gyngor y Celfyddydau.

# Dadansoddi'r dystiolaeth

33. Roeddem o'r farn bod chwe phrif faes wedi dod i'r amlwg yn ystod ein hymchwiliad, sef:

1. Yr angen am ddull gweithredu strategol
2. Yr angen am arian a chymorth
3. Yr angen i weithio mewn partneriaeth
4. Rôl awdurdodau lleol a gweithio ar draws Cymru gyfan
5. Rôl cyhoeddi
6. Rhwystrau a chymorth i ymarferwyr sy'n gweithio ym maes y celfyddydau

34. Caiff pob prif fater ei ystyried mewn adran benodol o'r adroddiad hwn. Mae pob adran yn dadansoddi'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y tri phrif grŵp a fu'n cyfrannu i'r ymchwiliad hwn, sef:

- y llywodraeth a chyrff a noddir gan y llywodraeth,
- sylwedyddion gwybodus,
- ymarferwyr.[13]

35. Ar sail y dadansoddiad hwn, rydym wedi darparu set o argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraeth y Cynulliad a sefydliadau perthnasol eraill. Ceir crynodeb o'n hargymhellion ar dudalen 6 yr adroddiad hwn.

36. Daeth dau fater arall i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad hwn, ond nid oedd gennym ddigon o dystiolaeth i seilio argymhellion arni. Y materion hyn oedd:

**<u>Cyfle cyfartal</u>**

37. Nid oedd lle amlwg i faterion yn ymwneud â chyfle cyfartal yn y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymchwiliad hwn.

38. Daeth tystiolaeth i law a oedd yn dangos bod nifer gyfyngedig o dystion yn pryderu am gyfle cyfartal yng nghyswllt penderfyniadau ariannu. Er enghraifft, dywedodd Ensemble Cymru:

> "At present classical chamber music production receives no public support and relies on lottery. This does present a challenge to equality of opportunity for this particular art form."[14]

39. Roedd David Petersen hefyd yn pryderu am y canlynol:

> "In the Arts Council's strategy (until 2013), under the Dance section (p.35), the Vision is that "Two long term revenue funded contemporary dance touring and production companies that currently receive direct funds; To these have been, added further resources to support India Dance Wales." The Welsh Dance Society will receive nothing. (They have applied for support and continually been refused). So it would appear that the Arts Council supports other cultures much more

---

[13] Ceir esboniad o'r termau hyn yn yr adran flaenorol, 'Gwybodaeth gefndirol am gyrff sy'n cyfrannu at ddatblygu'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru'.
[14] Ensemble Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

readily than Welsh culture. The Arts Council promotes arts and culture IN Wales and not OF Wales."[15]

40. Fodd bynnag, ni chafodd y mater hwn ei godi mewn unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig arall a gyflwynwyd, nac mewn unrhyw dystiolaeth lafar, ac ni chafwyd tystiolaeth gan India Dance Wales na Chymdeithas Ddawns Cymru.

41. Rydym o'r farn y dylai'r broses dyrannu arian fod yn agored ac yn dryloyw, a dylai hyrwyddo egwyddorion cyfle cyfartal. Rydym hefyd yn nodi ac yn cefnogi sylwadau a wnaed yn flaenorol gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef bod Cymru:

> "yn ymfalchïo mewn poblogaeth â chymysgedd wirioneddol gosmopolitaidd o ddiwylliannau a chenhedloedd ... [sydd wedi] ... helpu i ailddiffinio ystyr bod yn Gymry, ac wedi cyfoethogi diwylliant ... Cymru."[16]

42. Yn wir, cawsom ein calonogi i glywed am nifer sylweddol o enghreifftiau o arfer da mewn perthynas ag egwyddorion Cyfle Cyfartal. Er enghraifft, nododd Amgueddfa Cymru'r canlynol:

> "Yn unol â'i chenhadaeth i 'Sôn wrth Gymru am y Byd ac wrth y Byd am Gymru', gwnaeth Amgueddfa Cymru gryn ymdrech i ymgysylltu ag amrywiol gymunedau Cymru; trwy ddatblygu'r oriel flaengar a hynod o lwyddiannus Oriel 1 yn Sain Ffagan, y dathliadau Divali diweddar ym mis Tachwedd 2008 yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a thrwy'r Ŵyl Diwylliannau Mwslimaidd yn 2006-07."[17]

43. Nododd Peter Finnemore hefyd ei fod wedi cyfathrebu â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf:

> "[communication] has predominantly been through the Welsh language, it's important in the future for WAI to continue with this bilingual policy."[18]

44. Rydym o'r farn y dylai egwyddorion cyfle cyfartal barhau i gael eu hybu trwy Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd.

## Yr angen am waith ymchwil a gwerthuso effeithiol

45. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd David Petersen:

> "As far as I have experienced it the evaluation of how successful a project has been and if it was value for money has not been dealt with

---

[15] Ymateb ar ffurf tystiolaeth ysgrifenedig gan David Petersen, http://www.assemblywales.org/cc_3__-_pwa15_-_david_petersen_-_e.pdf, tudalen 11.

[16] Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Materion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru, eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw a gweithio ynddynt*, tudalen 2.

[17] Ymateb ar ffurf tystiolaeth ysgrifenedig gan Amgueddfa Cymru

[18] Papur 7: Papur ysgrifenedig gan Peter Finnegan, Cyfarfod Y Pwyllgor Celfyddydau a Diwylliant ar 12 Chwefror 2009.

adequately. After the "Year of Wales" in 2002 I was invited to write and submit a de brief report for consideration by the International Relations Unit of WAG and I did. In that report I pointed out several mistakes that I hoped would have been learnt from in any future events and wrote at length what I believed had caused these mistakes and how they could be remedied in future. This report was received with some scepticism by the officers involved and I was left in no doubt about their unwillingness to accept or to act upon my comments."[19]

46. Fodd bynnag, ni chodwyd y mater hwn yn benodol mewn tystiolaeth gan dystion eraill. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod gweithgarwch rhyngwladol yn cael ei werthuso, gan sôn bod:

> "Wales Arts International and the Arts Council of Wales have provided detailed updates on their international work during Arts Strategy Board meetings of 2008."[20]

47. Nododd Amgueddfa Cymru hefyd ei bod wedi bod yn:

> "ymdrechu'n sylweddol yn ddiweddar i ddatblygu fframwaith gwerthuso a chaiff ein gwaith, gan gynnwys digwyddiadau, arddangosfeydd a marchnata, ei werthuso trwy hwn er mwyn i ni ddeall a gwella at y dyfodol."[21]

48. Rydym o'r farn y dylid parhau i werthuso effeithiolrwydd ymdrechion i Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd.

---

[19] David Petersen, ymateb ar ffurf tystiolaeth ysgrifenedig, http://www.assemblywales.org/cc_3__-_pwa15_-_david_petersen_-_e.pdf, tudalen 7.

[20] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ymateb ar ffurf tystiolaeth ysgrifenedig, http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-ccc-home/cc_inquiries/nafw_arts-home/nafwcc_3_arts/nafw_cc3-arts-written_responses/nafw_cc3-arts-16.htm

[21] Ymateb ar ffurf tystiolaeth ysgrifenedig gan Amgueddfa Cymru. http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-ccc-home/cc_inquiries/nafw_arts-home/nafwcc_3_arts/nafw_cc3-arts-written_responses/nafw_cc_3__arts-35.htm

## Mater allweddol 1: Yr angen am ddull gweithredu strategol

*"...we try to take a more corporate strategic approach to promoting Wales. That was reaffirmed in 'One Wales' and it continues to be a priority[...] there is not a one size fits all solution to this, so the approach that we are taking to the Smithsonian folk festival, for example, is different from the one that we took to the Lorient festival in Brittany last August which was more about tradition, culture and tourism"*[22]

49. Mae prif ffocws Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â hyrwyddo Cymru'n ymdrin â chelfyddydau a diwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r 'Celfyddydau a diwylliant' yn bynciau sy'n cyd-fynd yn dwt â phortffolios adrannol, ac felly caiff y themâu hyn eu plethu i mewn i nifer o strategaethau a chynlluniau cyflenwi.

50. Y prif gorff sy'n gyfrifol am y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru yw Cyngor Celfyddydau Cymru. Dros y deng mlynedd diwethaf bu'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth strategol â'r Cyngor Prydeinig i ffurfio Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.[23] Mae hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant ar lwyfan y byd yn rhan o gylch gwaith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru:

*"Yr ydym am drawsnewid cyfleoedd ar gyfer artistiaid yng Nghymru, buddsoddi mewn ymarferiad artistig ac arweinyddiaeth ddiwylliannol drwy gysylltu â rhwydweithiau byd eang a lleol, dod â buddsoddiadau ariannol i'r celfyddydau ac economi greadigol Cymru, ffurfio perthnasau gyda diwylliannau gwahanol drwy'r celfyddydau, meithrin rhagoriaeth artistig ryngwladol a hybu effaith a chydnabyddiaeth ryngwladol ar gyfer y celfyddydau a diwylliant Cymru"*[24]

51. Roedd y tystion yn cytuno er ei bod yn amlwg bod strwythurau mewn grym i hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru dramor, mae'r dirwedd o ran y celfyddydau a diwylliant yn gymhleth ac yn anhrefnus ac mae'n anodd gwneud synnwyr ohoni, yn enwedig os ydych yn ymarferwr neu'n gwmni celfyddydau sy'n helpu i wireddu dyheadau Cymru. Yn aml, mae'r bobl hyn yn pendroni ynghylch eu lle yn y jig-so cymhleth hwn sy'n cynnwys y llywodraeth, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, blaenoriaethau a rhaglenni ariannu. Pan ofynnwyd i Urdd Gwneuthurwyr Cymru am argymhelliad ynghylch sut y gellid gwella'r sefyllfa bresennol, ei hymateb oedd:

*"...a more joined up funding structure in which all the funding organisations work as one or pull in the same direction"*[25]

52. Yn yr un modd, dywedodd Syrcas Nofit State wrthym:

---

[22] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Gary Davies, Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol – tystiolaeth lafar 12.02.09
[23] Y Cyngor Prydeinig – Kevin Higgins, Cyfarwyddwr – tystiolaeth lafar 12.02.09
[24] Celfyddydau Rhyngwladol Cymru – Eluned Haf, Cyfarwyddwr – tystiolaeth lafar 12.02.09
[25] Simon Burgess, Urdd Gwneuthurwyr Cymru – tystiolaeth lafar 12.2.09

*"…One of the problems at the moment is that when there is a number of different bodies, each of which has its own very focused remit, it is very difficult for them to step outside their remit when often work activity can fall between remits…and things sometimes do not happen. A greater degree of flexibility and open thinking are required"*[26]

53. Yn wir, dywedodd Llywodraeth y Cynulliad wrthym nad oes ganddi strategaeth benodol sy'n clymu popeth ynghyd:

*"there is no glossy document or brochure setting out a strategy in 1000 paragraphs"*[27]

54. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn mynnu nad oedd hynny'n angenrheidiol:

*'…the fact that we do not have a published strategy does not mean that we are not being strategic…we put together [a strategic framework] about five years ago…and [it] still provides the framework within which we work'*[28]

55. Rydym yn deall bod y fframwaith strategol hwn wedi'i gyhoeddi yn 2004[29]. Mae'n amlinellu'r egwyddorion sy'n arwain gweithgareddau a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad mewn pum prif faes: cydberthnasau rhyngwladol; delwedd Cymru a'r modd y caiff ei brandio; hyrwyddo a marchnata; digwyddiadau ac ymweliadau, a gweithio gydag eraill a thrwy eraill.

56. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod cyd-destun diwylliannol Cymru wedi newid yn sylweddol ers i'r ddogfen honno gael ei chyhoeddi. Mae cyfnod o ddatblygiad cyflym wedi gweld newid sylweddol yn nhrefniadau cyfansoddiadol Cymru, gan gynnwys cyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006; mae'r llywodraeth glymblaid yn golygu bod y dirwedd wleidyddol yn wahanol iawn nawr; mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu a thyfu, ac nid yw cyrff y cyfeirir atynt droeon yn y ddogfen wreiddiol, megis Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn bodoli bellach, gan eu bod wedi cael eu cynnwys yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad.

57. Er nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad strategaeth drosfwaol, mae ganddi 'strategaeth ddiwylliant' sy'n para 10 mlynedd,[30] yr oedd disgwyl iddi gael ei hadolygu gan 'Fwrdd Diwylliant' a grëwyd ym mis Gorffennaf 2005 gan y Gweinidog Diwylliant, oedd â'r dasg o oruchwylio datblygiad strategaeth ddiwylliant newydd.

58. Dywedodd Cyngor y Celfyddydau wrthym:

---

[26] Alison Woods, Syrcas Nofit State – tystiolaeth lafar 12.2.09
[27] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth lafar 29.01.09
[28] Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Gary Davies, Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol) – tystiolaeth lafar 29.01.09
[29] Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (EUR2 08-04(P3-e) http://www.assemblywales.org/hom-pdfviewer?url=n0000000000000000000000000025513
[30] Cymru Greadigol – Strategaeth Ddiwylliant i Gymru: http://new.wales.gov.uk/depc/publications/cultureandsport/creativefuture/creativefuturew.pdf?lang=cy

*"There needs to be momentum here because 2002 is a long time ago in the life of a culture. Some themes are still relevant, but there are things such as those that we have been talking about [...] which need to be reassessed. There is a point at which people stop referring to a document; administrations have moved on and the One Wales agenda has also changed matters. So there is some need to arrive at another statement."*[31]

59. Pân ofynnwyd i Andraw Green o Lyfrgell Genedlaethol Cymru am strategaeth i hyrwyddo diwylliant Cymru mewn gwledydd eraill, dywedodd:

*"there is no such strategy...the main benefit would be better coordination between different parts of government and different public organisations within Wales, so that, essentially we are all facing the same way."*[32]

60. Cyfeiriodd y Gweinidog at sawl digwyddiad a oedd yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn llwyddo i weithio mewn modd strategol i hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru, gan gynnwys y cydweithio sy'n digwydd ar hyn o bryd rhwng adrannau'r llywodraeth mewn perthynas â Gŵyl y Smithsonian sy'n cael ei chynnal cyn hir yn Washington, yn yr Unol Daleithiau. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod Cymru'n elwa cymaint ag sy'n bosibl o'r diwydiannau sy'n bodoli ym maes y celfyddydau a diwylliant, ac yn defnyddio'r synergedd sydd i'w gael rhwng y celfyddydau a diwylliant a hyrwyddo Cymru dramor.

61. Clywsom dystiolaeth bod gŵyl y Smithsonian wedi rhoi ffocws i weithgarwch cyd-drefnus i hyrwyddo Cymru, ond y dylai'r ymdrechion hyn fod yn barhaus:

*"Wales is the featured nation of the Smithsonian Folklife Festival which will be a major opportunity for Wales to show itself directly to more than half a million people. That has focused efforts and brought all the different institutions together in a way that has not happened before...So that would be the chief benefit of having an overall strategy; it is not to spend more money – which is not available – but to focus existing money, resources and effort on doing similar things"*[33]

62. Yn ogystal, cawsom dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol ynghylch sut y gallai Cymru fanteisio ar gyfleoedd i arddangos yr hyn sydd ganddi i'w gynnig yn rhyngwladol:

*"I am struck by the absence of any clear strategy for using our national arts institutions and organisations to promote Wales on a global stage. The BBC National Orchestra of Wales toured the United States two years ago with the support of the Welsh Assembly Government to use those opportunities to promote Wales...there is an opportunity to use these big national organisations such as the Welsh National Opera, our orchestra, Diversions and the National Theatre of Wales...there is an opportunity to put together a strategy to ensure that wherever they go, some use can be made of those tours and visits to promote Wales. I think that it is in the*

[31] Cyngor Celfyddydau Cymru – David Alston, Cyfarwyddwr y Celfyddydau, tystiolaeth lafar 5.12.08
[32] Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Andrew Green, Llyfrgellydd, tystiolaeth lafar 26.02.09
[33] Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Andrew Green, Llyfrgellydd, tystiolaeth lafar 26.02.09

*Netherlands that the touring plans and diaries of national companies are brought together with public support to ensure that wherever they go to tour – whether it is for a trade mission, for tourism purposes or whatever – piggybacking is possible."*[34]

63. Yn yr un modd, nododd Opera Cenedlaethol Cymru:

*"There is an opportunity, if the Assembly is to have a strategy for Welsh arts on the world stage, to work with whatever companies are performing abroad and to make best use of those opportunities in terms of all the activities that relate to international visits, whether for trade development or developing business relationships. There are all sorts of opportunities around, particularly at the most prestigious and major festivals at major locations. There must be plenty of opportunities for various government departments to exploit that."*[35]

64. Rydym yn cytuno y byddai hynny'n ddoeth, a byddem yn hoffi gweld Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio dull gweithredu mwy strategol i hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant er mwyn creu cyfleoedd i hyrwyddo Cymru dramor a manteisio arnynt.

**Argymhelliad 1**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru (y cyfeirir ati o hyn allan fel Llywodraeth y Cynulliad) yn adnewyddu ei fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

**Argymhelliad 2**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi ymrwymiad cadarn i hwyluso'r strategaeth ddiwylliant newydd.

65. Cafwyd sylwadau mwy penodol gan y Llyfrgell Genedlaethol ynghylch diffyg presenoldeb Cymru ar y rhyngrwyd:

*"Wales may be almost invisible in the world, geographically…but that does not mean that Wales has to be invisible in what is increasingly an important way to make an impact – in the virtual world."*[36]

66. Darparodd y Llyfrgell Genedlaethol awgrymiadau ynghylch sut y gellir gwella hyn[37]:

[34] BBC Wales – Menna Richards, Rheolwr, tystiolaeth lafar 12.02.09
[35] Opera Cenedlaethol Cymru – Peter Bellingham, Cyfarwyddwr Gweithredol, tystiolaeth lafar 12.02.09
[36] Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Andrew Green, Llyfrgellydd, tystiolaeth lafar 26.02.09
[37] Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Andrew Green, Llyfrgellydd, tystiolaeth lafar 26.02.09

- Trwy weithio mewn partneriaeth yn well – gyda sefydliadau megis Prifysgolion Cymru, sydd â chysylltiadau niferus â gwledydd tramor yn aml, ond sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo'r cysylltiadau addysgol yn unig

- **Trwy greu presenoldeb penodol ar y rhyngrwyd i hyrwyddo Cymru, a hynny o bosibl trwy ehangu'r wefan bresennol [www.wales.com](www.wales.com), â'r nod o wneud y canlynol:**

  - **denu, diddori ac ysbrydoli pobl, a'u helpu i ddysgu am Gymru**

  - **bod yn gwbl ryngweithiol**

  - **tynnu ynghyd yr holl wybodaeth am Gymru sydd wedi'i gwasgaru ar draws y rhyngrwyd ar hyn o bryd, a chydlynu gwybodaeth a dolenni cyswllt gweithredol i gyrff cyhoeddus perthnasol yn ogystal â diwydiant preifat er mwyn 'sicrhau bod un gornel o'r rhithfyd yn Gymru i weddill y byd'**

67. Cefnogwyd yr awgrym hwn gan yr Academi hefyd, a wnaeth y sylw y gallai defnyddio Wales.com fod yn fodd cost-effeithiol o gynrychioli Cymru'n well.[38]

68. Tynnwyd sylw Andrew Green at y ffaith bod y brand a ddefnyddiwyd gan yr hen Awdurdod Datblygu Cymru'n arfer bod yn frand adnabyddus a chyson. Ymatebodd Andrew Green i hynny gan ddweud:

> *"...Credaf nad oes gwahaniaeth beth yw'r brand, mewn ffordd – pa fath o ddraig – y peth pwysig yw bod un ddelwedd o Gymru sy'n cael ei hadnabod ledled y byd."*[39]

69. Agwedd arall ar frandio ar gyfer Cymru yw cyflwyno'r enw parth dotCym. Mae hwn yn un o ymrwymiadau Cymru'n Un, ac fe'i cefnogwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru fel:

> "*ffordd effeithiol o fachu pobl a sicrhau eu bod yn sylweddoli bod y fath endid â Chymru yn y byd rhithiol.*[40]

70. Rydym yn cytuno â'r awgrymiadau hyn, ac rydym o'r farn eu bod yn cynnig y cyfle i fynd ati i hyrwyddo Cymru heb fod angen buddsoddiad sylweddol.

**Argymhelliad 3**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu gwefan wales.com yn wefan awdurdodol y mae pobl yn troi ati i gael gwybodaeth am Gymru. Dylai'r wefan ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chymryd y cyfle i

[38] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 26.02.09, yn enwedig paragraff 65.
[39] Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Andrew Green, Llyfrgellydd, tystiolaeth lafar 26.02.09
[40] Ibid.

hyrwyddo nifer fawr o bynciau, gan gynnwys busnes, buddsoddi, y celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth, a'r cyfan hyn dan frand cyson hawdd ei adnabod.

71. Gellir rhoi'r dasg i gyrff diwylliannol Cymru, sy'n cynnwys y canlynol (ymhlith eraill): Croeso Cymru, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cadw, Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol, ddatblygu gwasanaeth rhyngrwyd cydlynol ac integredig o'r fath. O ystyried y wybodaeth fanwl a ddarparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru mewn perthynas â'r argymhelliad hwn, byddem yn disgwyl ei gweld yn arwain y gwaith hwn.

## Mater allweddol 2: Yr angen am arian a chymorth

72. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cymorth ariannol allweddol yn anuniongyrchol i'r celfyddydau a diwylliant trwy Gyngor Celfyddydau Cymru:

> *"Mae'r penderfyniadau o ran pwy sy'n derbyn cefnogaeth a phwy sy'n cael eu dewis yn faterion i Gyngor y Celfyddydau neu ba bynnag gorff arall sy'n rhan o unrhyw drefniant. Yn sicr nid yw, ac ni ddylai fod, yn fater i wleidyddion, er cymaint y buaswn yn dymuno cael y pŵer hwnnw wrth gwrs... Mewn sefyllfa fel hon, yr unig beth y gallwch ei ofyn yw bod y broses o ddewis yn glir a bod y meini prawf wedi cael eu gosod allan... Unwaith yr ydych yn cyrraedd y pwynt o ddewis pwy sy'n cael gwneud a phwy sydd ddim yn mynd yr ydych yn gwybod y bydd cwynion."*[41]

73. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr egwyddor 'hyd braich', ond rydym yn cefnogi awydd y Gweinidog i gael proses agored a thryloyw.

74. Derbyniwyd tystiolaeth a oedd yn awgrymu bod gweithdrefnau Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ar gyfer dewis trefnwyr gwyliau'n ddiffygiol. Fodd bynnag, dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wrthym:

> *"O ran atebolrwydd y dewisiadau, roeddem wedi sefydlu system o ymgynghorwyr cenedlaethol drwy Gyngor y Celfyddydau, ac mae gennym arbenigwyr yn y sector. Yr oedd y broses yn un agored, wedi'i hysbysebu, er mwyn inni allu troi at bobl sy'n gwybod am beth y maent yn sôn yn y meysydd perthnasol. Yn gyffredinol, yr ydym yn sefydlu panel dethol sy'n agored o ran pob prosiect yr ydym yn ymwneud ag ef."*[42]

75. Rydym yn fodlon bod Celfyddydau Rhyngwladol Cymru'n defnyddio dull priodol i ddewis trefnwyr gwyliau, ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r dull agored a thryloyw hwn wrth ddewis artistiaid i gynrychioli Cymru dramor hefyd.

76. Mae ffynonellau eraill sy'n ariannu'r celfyddydau a diwylliant yn uniongyrchol yn cynnwys y canlynol:

- **Buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol** – mae peth arian a roddwyd ar gyfer cyfleusterau chwaraeon wedi dod o fuddsoddiad gan y loteri, gan gynnwys pwll nofio 50 metr cenedlaethol Cymru yn Abertawe, Felodrom Cenedlaethol Cymru yng Nghasnewydd, a'r Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol yng Nghaerdydd[43]

- **Nawdd cyhoeddus** – a gynigir gan unigolion a sefydliadau y mae tystion wedi nodi ei fod wedi cyfrannu at lenwi peth o'r bwlch yn yr arian sydd ar gael ar gyfer y celfyddydau ac wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad y celfyddydau yng Nghymru[44]

---

[41] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth lafar 29.01.09
[42] Celfyddydau Rhyngwladol Cymru – Eluned Haf, Cyfarwyddwr, tystiolaeth lafar 12.02.09
[43] Llywodraeth Cynulliad Cymru – tystiolaeth ysgrifenedig
[44] Prifysgol Glyndŵr – tystiolaeth ysgrifenedig

- **Arian Ewropeaidd** - Mae'r celfyddydau wedi chwarae rôl bwysig yn y modd y caiff cronfeydd strwythurol Ewropeaidd eu defnyddio yng Nghymru. Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru o'r farn bod y rhain yn llinyn buddiol yn y cynlluniau cyfredol ar gyfer cyllid Cydgyfeirio ac mewn rhaglenni yn y dyfodol[45]

77. Yn anorfod, ceir tensiynau wrth drafod sut y caiff arian ei ddosbarthu rhwng ariannu mentrau mawr rhyngwladol a chefnogi mentrau llai ar lawr gwlad. Dywedodd Syrcas NoFit State:

> *"An individual arts organisation can be very large, have high levels of public funding from the Arts Council of Wales and yet have relatively little international impact at all and be virtually unknown outside of Wales and you can have an individual artist who lives on half a tin of baked beans a week and receives virtually no funding, but has an incredible international profile and reputation."*[46]

78. Roedd Volcano Theatre yn cytuno â'r farn y dylid cynnig mwy o gymorth i gyrff llai o faint:

> *"…the smaller, innovative, entrepreneurial units are the ones that are generally projecting a modern, contentious contemporary view of Wales…I would recommend that the Assembly Government focus on the smaller, entrepreneurial companies that are flexible, risk-taking and responsive."*[47]

79. Cafwyd cydnabyddiaeth gan y Gweinidog bod hwn yn fater sy'n achosi rhwystredigaeth:

> *"Yr ydych yn iawn i ddweud bod tensiwn. Bydd tensiwn nes daw'r awr pan fydd gennym ddigon o arian i bawb...Yr ydych yn iawn bod angen cydbwysedd. Byddai bron pawb yn dweud nad ydynt yn cael digon o arian i gyflawni'r gwaith fel y byddent yn dymuno ei wneud."*[48]

80. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n cefnogi'r bwriad i geisio arian ychwanegol o Ewrop:

> *"The new Convergence programme of European funding for Wales also provides opportunities to work with other regions of Europe, particularly through Interreg projects to develop cultural links and learn from experiences."*[49]

81. Byddem yn hoffi gweld dull gweithredu strategol yn dod â'r prif randdeiliaid ynghyd i gydlynu a hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd, a cheisio elwa cymaint ag sy'n bosibl ar bob ffynhonnell sydd ar gael i ddarparu cymorth ariannol.

---

[45] Cyngor Celfyddydau Cymru – tystiolaeth ysgrifenedig
[46] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 12.2.09.
[47] Volcano Theatre – Paul Davies, Cyfarwyddwr Artistig – tystiolaeth lafar 12.02.09
[48] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth lafar 29.01.09
[49] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – tystiolaeth ysgrifenedig

**Argymhelliad 4**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n cydweithio er mwyn manteisio cymaint ag sy'n bosibl ar yr arian sydd ar gael (gan gynnwys arian Ewropeaidd) i gefnogi celfyddydau a diwylliant Cymru dramor.

82. Yn fwy penodol, roedd Prifysgol Glyndŵr o'r farn y gellid cael rhagor o gefnogaeth trwy nawdd cyhoeddus. Roedd y Brifysgol yn argymell y:

> *"The Communities and Culture Committee should ensure that in its consideration of the allocation of resources, alternative sources of funding possibly from the public patrons, should be sought before funding is withdrawn from locally based arts and culture activities."*[50]

**Argymhelliad 5**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n archwilio gwell ffyrdd o annog a chynorthwyo'r cyhoedd i gefnogi'r celfyddydau.

83. Er ei bod yn hanfodol rhoi arian yn uniongyrchol i'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru a sicrhau bod Cymru'n cael ei hyrwyddo ar lwyfan y byd, ceir potensial ar gyfer mewnbwn sylweddol gan ffynonellau eraill i wella a chefnogi'r celfyddydau a diwylliant. Er enghraifft, mae'r BBC yn ystyried o ddifrif dod â'i gwaith cynhyrchu drama at ei gilydd mewn un lleoliad i gynhyrchu nifer o raglenni adnabyddus gan gynnwys *Pobol y Cwm, Doctor Who, Torchwood* a *Casualty*:

> *"Yr ydym yn ystyried y goblygiadau ariannol ar hyn o bryd...Yn ddelfrydol byddem am weld pentref drama a phencadlys newydd i BBC Cymru yn yr un man...*
>
> *"Nod arall, wrth gwrs, yw ymateb i'r her y mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi'i gosod, sef bod 17 y cant o gynnyrch rhwydwaith y BBC yn cael ei gynhyrchu oddi allan i Lundain erbyn 2016. Yr wyf wedi dweud fy mod yn gobeithio y byddwn ni yng Nghymru yn gallu cyrraedd ein nod ni ymhell cyn hynny, ond, wrth gwrs, mae hynny'n dibynnu ar gael y pentref drama."*[51]

84. Gallai hyn roi hwb sylweddol i fuddsoddiad mewn rhai agweddau ar y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r sylw ychwanegol y bydd Cymru'n ei gael ar lwyfan y byd o ganlyniad i hyn.

[50] Prifysgol Glyndŵr – tystiolaeth ysgrifenedig
[51] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 29.01.09

## Mater allweddol 3: Yr angen i weithio mewn partneriaeth

85. Sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad Fwrdd Strategaeth y Celfyddydau i ddod â phobl ym myd y celfyddydau ynghyd i gael trosolwg o'r celfyddydau yng Nghymru a chyfrannu at y gwaith o lunio a gweithredu polisi'r llywodraeth. Wrth ddisgrifio'r Bwrdd Strategaeth, roedd y Gweinidog blaenorol dros Dreftadaeth wedi datgan yn glir pa rôl y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ei chwarae mewn perthynas â'r cyrff hyd braich, gan gynnwys Cyngor y Celfyddydau:

> *"Fy ngwaith a'm cyfrifoldeb fel Gweinidog, a chyfrifoldeb y Llywodraeth, yw creu polisi, a chyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru yw gweithredu ar y polisi hwnnw ac ariannu prosiectau yn y celfyddydau. Felly, mae'r egwyddor o gadw hyd braich wedi'i sefydlu yn gadarn iawn. Nid yw'r Bwrdd yn ceisio gweithredu ar lawr daear; mae'n ceisio cael darlun eang o'r hyn sy'n digwydd yng nghyd-destun y celfyddydau a diwylliant."*[52]

86. Y prif gerbyd ar gyfer cydweithio rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Prydeinig yw Celfyddydau Rhyngwladol Cymru trwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

87. Fodd bynnag, rydym wedi nodi bod gan y Cyngor Prydeinig gylch gwaith llawer ehangach na hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant, ac wrth gwrs mae ei gylch gwaith yn ymdrin â'r DU gyfan ac nid Cymru'n unig:

> *"We are not a funding body; we do not fund arts or cultural development. Our focus is always on reaching an audience and on changing people's minds, perceptions and lives. That is what we look for when we look to engage in the UK with the arts and culture sector and to help to internationalise that in the right place and at the right time to make a difference to the UK."*[53]

88. Mae arian yn llifo o Lywodraeth y Cynulliad i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru trwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Er mai cyfran fach o arian a gaiff ei chyfrannu gan y Cyngor Prydeinig ar gyfer prosiectau ar y cyd, mae'n darparu adnoddau eraill:

> *"…in terms of money, most of it comes from the Arts Council and a little comes from the British Council. In terms of human resources across the world, the partnership that enables us to contact officials across the world is priceless"*[54]

89. Mae'n amlwg bod y ddeialog rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig trwy Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n fyw iawn. Roedd gan Gyfarwyddwyr Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig bethau da i'w dweud wrth iddynt gyflwyno tystiolaeth lafar gyda'i gilydd i'r pwyllgor ar 3 Rhagfyr. Nododd y Cyngor Prydeinig:

---

[52] Tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor – Y Gweinidog Treftadaeth (Rhodri Glyn Thomas) – 26.6.08
[53] Y Cyngor Prydeinig – Louise Wright – tystiolaeth lafar 3.12.08
[54] Celfyddydau Rhyngwladol Cymru – tystiolaeth lafar 3.12.08

*"...over the last 10 years we have worked in close cooperation and partnership with the Arts Council of Wales, which has been managed through the joint venture of Wales Arts International. It is an extremely important partnership for us"*[55]

90. Yn yr un modd, nododd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru:

*"......working in partnership is extremely important to us. What works well is that we can combine the strengths of the two main partners, namely the Arts Council of Wales and the British Council"*[56]

91. Wrth sôn am weithio mewn partneriaeth, rhoddodd BBC Wales enghreifftiau i ni o'r gwahanol drefniadau ffurfiol ac anffurfiol sydd gan y gorfforaeth, megis y bartneriaeth strategol allweddol ag S4C; Cyngor Celfyddydau Cymru, ac awdurdodau lleol megis rhwng Cyngor Caerdydd a chystadleuaeth 'Canwr y Byd' y BBC. Ond fodd bynnag, rhybuddiodd rheolwr BBC Wales:

*"mae'n rhaid i ni yn y BBC bwyso a mesur y partneriaethau hyn wrth inni symud ymlaen. Mae disgwyliad weithiau ein bod yn gallu cefnogi popeth. Ni allwn wneud hynny, a rhan o'r gwaith dadansoddi a wneir yw ystyried am ba hyd y dylem barhau â gwahanol bartneriaethau."*

92. Gwnaeth Amgueddfa Cymru sylw ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth:

*"Arts, culture and heritage organisations such as us, along with the Welsh Assembly Government could be smarter at spotting opportunities that are projected through Westminster as being UK-wide. We could share those opportunities more smartly, getting in there and talking about Wales's role on the right occasions and with the right product...In a sense we have to be alert to opportunities for us to come along and say 'We can collaborate.'*

*"There are some really interesting opportunities for collaboration across borders by trusts and foundations, the third sector and the lottery bodies. We must ensure that we are able to pick up on those kinds of opportunities early, so that they do not get marshalled into an England-only programme"*[57]

93. Agwedd arall ar weithio mewn partneriaeth yr oedd yr ymchwiliad hwn yn ceisio ei archwilio oedd sut mae polisïau a strategaethau Llywodraeth y Cynulliad yn cyd-fynd â pholisïau a strategaethau Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn enwedig o ran eu hymdrechion i wneud y DU yn 'ganolfan greadigol fyd-eang', yng nghyd-destun Olympiad Diwylliannol 2012?

94. Mae'r ffaith bod y Gemau Olympaidd yn dod i Brydain yn 2012 wedi rhoi cyfle i ni fanteisio ar y nifer uwch o ymwelwyr a fydd yn dod yma a'r sylw y bydd y DU yn ei gael yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r 'Olympiad Diwylliannol' yn

[55] Y Cyngor Prydeinig – tystiolaeth lafar 3.12.08
[56] Celfyddydau Rhyngwladol Cymru – tystiolaeth lafar 3.12.08
[57] Amgueddfa Cymru (Michael Tooby) – tystiolaeth lafar 29.01.09)

ddathliad sy'n para pedair blynedd sy'n cwmpasu holl elfennau diwylliannol y mudiad Olympaidd a fydd yn cynnwys byd y celfyddydau a'r byd diwylliannol, rhwng 2008 a 2012.

95. Wrth roi sylwadau am y lefel leol, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym ei bod yn rhy gynnar i asesu holl fanteision Gemau Olympaidd Llundain 2012 i Gymru. Fodd bynnag, mae Cymru eisoes wedi profi sgîl-effeithiau'r Gemau â'r toriadau i'r arian sydd ar gael trwy'r loteri:

> *"…cuts felt in Wales to lottery funding to sport, culture and heritage funds (estimated at a total loss of funding to Wales of £73M until 2012)"*

96. Mae rhai wedi mynegi'r farn y bydd Cymru'n dal i dalu am y gemau am sawl blwyddyn ar ôl y digwyddiad, a dyna pam ei bod yn hanfodol ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd y mae'r gemau'n eu cynnig fel sbardun i hybu'r economi greadigol a chyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> *"There are fantastic opportunities to engage with the Olympic and Paralympic movement. For example, the Australian Paralympic team has already decided on Wales as its training camp and has an education programme including 1400 primary schools which could link with every primary school here in Wales"*

97. Mae cysylltiadau o'r fath yn rhoi'r cyfle i Gymru hyrwyddo ei hun ar lwyfan y byd. Dylid gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyn a'u defnyddio i'w llawn botensial. Rydym yn croesawu'r enghreifftiau hyn; fodd bynnag, byddem yn hoffi gweld dull gweithredu mwy strategol yn cael ei ddefnyddio i nodi'r cyfleoedd hyn i wneud cysylltiadau rhyngwladol a manteisio arnynt.

**Argymhelliad 6**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu cynllun gweithredu manwl sy'n gysylltiedig â'i fframwaith strategol. Dylai'r cynllun nodi cyfleoedd penodol, megis y rhai a grëir gan unigolion a chwmnïau celfyddydau teithiol o Gymru, i greu cysylltiadau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru dramor. At hynny, dylai'r cynllun ddatgan sut y bydd pob adran yn Llywodraeth y Cynulliad a phob corff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru'n cyfrannu at y strategaeth, a'r gwaith o'i chyflwyno a'i hadolygu trwy weithio gyda'i gilydd. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth y Cynulliad drafod â phrifysgolion er mwyn archwilio'u profiadau o gysylltiadau rhyngwladol a dysgu o'r profiadau hynny.

## Mater allweddol 4: Awdurdodau lleol a gweithio ar draws Cymru gyfan

98. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig y dylid rhoi dyletswydd ddiwylliannol statudol ar awdurdodau lleol Cymru. Gwahoddwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor a rhoi tystiolaeth ynghylch rôl llywodraeth leol wrth hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant. Yn anffodus, gwrthododd y Gymdeithas ein gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth lafar i'n pwyllgor, felly ni chawsom y cyfle i archwilio'r mater hwn yn fanylach. Cyflwynodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol ymateb ysgrifenedig, yn egluro mai rhywbeth dewisol yw unrhyw ddarpariaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei chynnig mewn perthynas â'r celfyddydau, a bod awdurdodau lleol:

> *"work with disadvantaged communities and within certain policy areas such as youth arts and disability arts to ensure that cultural experiences are available to all."*[58]

99. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n cydnabod pwysigrwydd y celfyddydau, ac roedd ei phapur yn nodi bod gan y celfyddydau rôl i'w chwarae o ran helpu i rannu dealltwriaeth a hybu goddefgarwch o wahaniaethau diwylliannol. Fodd bynnag, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n awgrymu mai bach yw ei chyfraniad ym maes y celfyddydau, gan ddweud:

> *"Local authorities in Wales have a small but important role in working with other organisations such as the Arts Council of Wales, Wales Arts International and the British Council in ensuring that international opportunities for local artistic talent is fully exploited and maximised"*[59]

100. Mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei barn ynghylch datblygu dyletswydd ddiwylliannol statudol pan oedd y broses o ddatblygu'r ddyletswydd honno newydd ddechrau:

> *"…the main focus of the statutory duty is and should be on delivering quality cultural experiences for local citizens and therefore it should not play a central role in promoting Welsh arts and culture on an international level"*[60]

101. Mae'n amlwg nad yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn credu bod cyfrannu'n fawr at y gwaith o hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lefel ryngwladol yn un o swyddogaethau craidd awdurdodau lleol Cymru:

> *"At a time when arts service budgets are being squeezed and the financial situation likely to continue for some time yet, the priority of local authority arts services should remain on delivering for local people. Any statutory duty must outline the core roles that local authorities should*

[58] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig.
[59] Ibid.
[60] Ibid.

*provide through their leisure and cultural services and not become a wide catch-all duty which fails to deliver its key aims"*[61]

102. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd bod cyfyngiadau ariannol yn bryder mawr i awdurdodau lleol, ac mae i ddyletswyddau statudol newydd oblygiadau o ran ariannu:

*"This does not preclude work of international standard being developed but this outcome is not the core purpose and role of local authority arts services. If this were to be included in any statutory duty then significant additional financial resources would need to be provided to local authorities to deliver this aim"*[62]

103. Er nad oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn bod gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflwyno diwylliant a chelfyddydau Cymru'n rhyngwladol awgrymodd bod cyfleoedd yn bodoli i gael mwy o gydweithio rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, y Cyngor Prydeinig ac awdurdodau lleol, a allai gyfrannu at hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd:

*"The WLGA would be happy to look at ways of working with the Arts Council of Wales and the British Council to improve communication channels to artists and art organisations in Wales about possible international opportunities."*[63]

104. Wrth roi tystiolaeth lafar nododd Amgueddfa Cymru bod enghreifftiau da i'w cael o gydweithio ag awdurdodau lleol, gan nodi enghreifftiau o awdurdodau lleol penodol y maent wedi gweithio gyda nhw. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r cydberthnasau hyn yn gyson ar draws bob ardal:

*"we have a good relationship with Cardiff as a local authority, but we have not yet been able to make the most of that on an international stage."*[64]

105. Mae'n amlwg bod arfer da i'w gael ymhlith awdurdodau lleol wrth hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru, er enghraifft, mae cystadleuaeth y BBC - Canwr y Byd Caerdydd yn enghraifft o gydweithio rhwng y BBC a Chyngor Caerdydd, ac er nad yw'n gystadleuaeth sydd am Gymru'n benodol, mae'n ddigwyddiad sy'n arddangos y gorau o Gaerdydd a Chymru. Dywedodd y BBC wrthym am enghreifftiau eraill o gydweithio ag awdurdodau lleol:

*"Coal House is another fine example of working with local authorities, working with the people of Blaenavon. Proms in the Park has been resident in Swansea for some time now. In collaboration with Cardiff and Swansea, we recently launched big screens in those city centres which we are using not only for the purposes of showing BBC programmes but also to support community projects…Children in need, for example, has a very*

---

[61] Ibid.
[62] Ibid.
[63] Ibid.
[64] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 29.01.09

*extensive presence in Colwyn Bay – for three or four years…we find that local authorities are extremely open to those types of discussions"*[65]

106. Clywsom dystiolaeth bellach ynghylch awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant:

*"...local authorities do cultural things that are of strong international interest. That is clear in my home town of Swansea, where we have the link with Dylan Thomas and many other things that are of clear international importance and advantage should be taken of them internationally – indeed that does happen."*[66]

107. Er ei bod yn amlwg bod arfer da'n bodoli, clywsom dystiolaeth bod lle i wella'r modd y caiff y celfyddydau a diwylliant eu hyrwyddo, a bod gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae wrth wneud y gwelliannau hyn. Er enghraifft, awgrymodd Prifysgol Glyndŵr y gallai awdurdodau lleol gronni adnoddau a gweithio'n rhanbarthol i sicrhau'r màs critigol y mae ei angen i ddarparu cymorth o ansawdd i'r celfyddydau a diwylliant:

*"We are starting to work together much more now. For example, we have recognised that we have to work together with counties in England. You have the Mersey Dee alliance, through which you get people to talk to each other. We are developing projects through the university in Flinthsire and Denbigshire, as well as in Wrexham."*[67]

108. Yn ogystal, mynegwyd barn bendant bod gormod o bethau ym maes y celfyddydau'n cael eu canoli yng Nghaerdydd a'r De-ddwyrain:

*"One of the major issues facing the arts in Wales is a feeling that it is too Cardiff-centric. This has now ceased to be merely a feeling that all new developments will go to Cardiff and has developed into a fear that facilities will be taken from other parts of Wales so as to boost Cardiff."*[68]

109. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae mewn digwyddiadau a gaiff eu cydnabod yn rhyngwladol a gynhelir ar draws Cymru gyfan. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn croesawu datblygu'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar Ddiwylliant a meysydd eraill, ond rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru:

*"You cannot possibly arrive at a form of cultural duty that a cultural strategy does not equate with. So, the two go hand in hand. As to whether one needs to happen before the other, I think that they need to happen in tandem and stay closely related."*[69]

---

[65] BBC Wales – Rhodri Talfan-Davies, Pennaeth marchnata, cyfathrebu a chynulleidfaoedd, tystiolaeth lafar 12.02.09
[66] Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Andrew Green, Llyfrgellydd, tystiolaeth lafar 26.02.09
[67] Prifysgol Glyndŵr – Yr Athro Michael Scott, Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr, tystiolaeth lafar 12.02.09
[68] Prifysgol Glyndŵr – tystiolaeth ysgrifenedig
[69] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3/12/08

110. Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon bod tuedd i fuddsoddiad a gweithgareddau artistig gael eu canoli yn Ne-ddwyrain Cymru. Er bod clystyru gweithgareddau yn cynnig manteision amlwg, megis trwy leoli sefydliadau celfyddydau symbiotig yng Nghanolfan y Mileniwm, mae'n bosibl bod y manteision hyn yn dod ar draul y rheini sy'n byw y tu hwnt i bellter teithio hawdd i ganolfannau artistig. Mae cynlluniau megis cynllun Cyfoeth Cymru Gyfan Llywodraeth y Cynulliad, a gwaith yn y gymuned gan gwmnïau megis Opera Cenedlaethol Cymru neu Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn mynd i'r afael â rhai o'n pryderon, ond rydym o'r farn bod modd gwneud mwy.

**Argymhelliad 7**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut y gall darparu celfyddyd yn rhanbarthol ac yn lleol, yn ogystal ag ar draws Cymru gyfan, gyfrannu at bresenoldeb diwylliannol rhyngwladol Cymru yn genedlaethol, yn benodol felly yn ei gwaith paratoi ac ymgynghori wrth ddatblygu ei strategaeth ddiwylliant newydd a'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar Ddiwylliant a meysydd eraill.

## Mater allweddol 5: Rôl cyhoeddi

111. Clywsom yn ystod ein hymchwiliad am bwysigrwydd y sector cyhoeddi wrth ledaenu gwybodaeth am Gymru trwy lenyddiaeth:

> *"We have a national poet project, through which the national poet acts as a cultural ambassador – our national poet will be in Dubai next week, representing Wales and the idea of Wales. I cannot tell you how important it is to have the ability to use quality writers to elevate Wales and its culture and to take that culture to places where, often, people have not heard about Wales."*[70]

112. Dywedodd Sefydliad Mercator ar gyfer Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant hefyd y byddai hyrwyddo Llenyddiaeth Cymru'n rhyngwladol yn galluogi gwledydd eraill i gael:

> *"dealltwriaeth well o Gymru, i gael pobl i ddod i adnabod Cymru, a bydd hynny, maes o law yn codi proffil Cymru ac yn dod â budd economaidd."*[71]

113. Fodd bynnag, roedd yr Academi'n pryderu bod gallu Cymru i hyrwyddo ei llenyddiaeth yn rhyngwladol wedi'i gyfyngu, a bod angen rhagor o adnoddau'n benodol ar gyfer:

> *"cyfieithu, cyhoeddi, dosbarthu a hyrwyddo... Rydym yn llawer llai effeithiol pan ddaw'n fater o ymdrin ag ieithoedd eraill. Er gwaethaf y llu cyson o ymwelwyr o Ewrop a'r tu hwnt yn ogystal ag agwedd agored at fewnfudo, mae ein hymwneud ag ieithoedd eraill y byd yn wael."*[72]

114. Yn yr un modd, nododd Sefydliad Mercator bod:

> *"yr adnoddau sydd wedi'u clustnodi yn benodol ar gyfer hyrwyddo llenyddiaeth mewn cyfieithiad hyd yma yn sylweddol is na'r hyn y mae ein partneriaid tramor yn ei ddisgwyl o wlad fel Cymru."*[73]

115. Yn ogystal, roedd yr Academi'n pryderu nad oes cydlynu strategol yn digwydd ynghylch blaenoriaethau rhyngwladol Cymru mewn perthynas â hyrwyddo llenyddiaeth, gan nodi:

> *"we are not made aware of what the UK Government's priorities are, never mind what the Welsh Assembly Government's priorities are. We dug through the documents and identified countries that are targeted, but that takes a lot of pushing. No-one has made a public presentation,"*[74]

116. Er mwyn gwella gallu sector cyhoeddi Cymru, cyflwynodd yr Academi bedwar argymhelliad i ni yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, sef:

- Cyhoeddi cyfres o flaenoriaethau rhyngwladol i Gymru

[70] Academi – Peter Finch, Prif Weithredwr, tystiolaeth lafar 20.02.09
[71] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 26.02.09
[72] Academi, tystiolaeth ysgrifenedig.
[73] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 26.02.09
[74] Ibid.

- Cydgysylltu ffurfiol rhwng yr asiantaethau hynny sy'n gweithio ar gyflwyno cynnyrch llenyddol yn rhyngwladol
- Defnyddio mwy ar arbenigedd yr Academi mewn pynciau yn ogystal â'i gallu gweinyddol
- Sefydlu canolfan gyfieithu i Gymru

117. Rydym yn cydnabod bod cyhoeddi'n rhoi llais hanfodol i Gymru sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau byd-eang. Rydym yn cymeradwyo gwaith ein hasiantaethau llenyddol, a byddem yn disgwyl i'r cymorth a roddir iddynt barhau yn yr adegau anodd hyn.

**Argymhelliad 8**

Rydym wedi argymell y dylai ymdrechion ein hadrannau a'n hasiantaethau diwylliannol gael eu cydlynu'n well, ac ystyriwn y dylai hyn ymestyn i waith ein hasiantaethau llenyddol. Rydym hefyd yn argymell y dylid datblygu gallu rhwng ein hasiantaethau er mwyn creu canolfan gyfieithu i Gymru.

## Mater allweddol 6: Rhwystrau a chymorth ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio ym maes y celfyddydau

118. Rydym wedi dod i'r casgliad o'r ymchwiliad hwn nad swydd hawdd mo bod yn artist yng Nghymru, a cheir nifer o rwystrau sylweddol y mae angen i artistiaid eu goresgyn - rhwystrau ariannol yn bennaf, ond rhwystrau hefyd yn yr ystyr nad oes llawer o gymorth, anogaeth na chyfeiriad yn cael eu rhoi ar gyfer yr hyn y mae artistiaid yn ei wneud:

> *"Art can be an expensive business. To compete on an equal footing with artists from London and maybe even Bristol or Birmingham, we need affordable studios where we can make art and we need reasonable incomes because materials are expensive."*[75]

119. Mae'n ymddangos mai anaml iawn y mae cynhyrchu gwaith celf yn talu'n dda, a does dim amheuaeth bod nifer o artistiaid yn ei chael hi'n anodd parhau am resymau ariannol. Aeth Mr Finnemore yn ei flaen i ddweud wrthym:

> *"We do not have the support of the buying pubic in Wales and have to generate money ourselves. I do so through teaching and the various commissions that I have been working on and then I plough that money back into my practice…I can work on a shoestring because I do not drive, I do not have a mortgage and I do not have a family."*[76]

120. Cadarnhaodd Prifysgol Glyndŵr bod graddedigion yn y celfyddydau ymysg y graddedigion a oedd yn cael eu talu waethaf.[77]

121. Yn ogystal, nododd Peter Finmemore ei bod yn bosibl nad oes gan artistiaid medrus sgiliau gweinyddol digonol, a gallai fod angen cymorth arnynt â'r ochr ymarferol o hyrwyddo eu gwaith. Nododd bod Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, wedi creu 'unedau meithrin' i gyflwyno sgiliau busnes i raddedigion yn rhan o'u cyrsiau, sy'n helpu; fodd bynnag, mae angen i gymorth o'r fath barhau ar ôl iddynt adael y brifysgol. Ceir cymhelliad i ofalu am ein hartistiaid yng Nghymru gan fod y diwydiannau creadigol yn creu cyfoeth, a dylid eu cefnogi ar lawr gwlad.[78] Mynegodd pob un o'r tystion y clywsom ganddynt sylwadau tebyg ynghylch gwerth y celfyddydau a diwylliant i Gymru.

122. Awgrymodd Stefhan Caddick hefyd bod cyfyngiadau ar allu artistiaid i symud ymlaen i'r digwyddiadau gorau yn y byd. Dywedodd wrthym:

> *"there is quite a lot of provision at the top end of visual art practice, such the Venice Biennale and Artes Mundi, but if you view visual arts provision as a ladder, you see that there are a couple of rungs at the bottom, and two rungs at the top, namely Artes Mundi and the Venice Biennale, but there is a big gap in the middle."*[79]

---

[75] Peter Finnemore – tystiolaeth lafar 12.02.09
[76] Peter Finnemore – tystiolaeth lafar 12.02.09
[77] Prifysgol Glyndŵr – tystiolaeth ysgrifenedig
[78] Peter Finnemore – tystiolaeth ysgrifenedig
[79] Stefhan Caddick – tystiolaeth lafar 12.02.09

123. Cawsom rai argymhellion ymarferol hefyd ynghylch sut y gallai artistiaid gael eu cynorthwyo i lenwi'r bylchau hyn. Er enghraifft, dywedodd Stefhan Caddick:

> *"You could scrap business rates for artist-run spaces and studio spaces. You could make regional studio provision compulsory for local councils. It is all about supporting artists on the ground."*[80]

124. Rydym o'r farn bod mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu artistiaid yn rhan hanfodol o gynorthwyo artistiaid i symud yn eu blaen i gael statws fel rhai o'r goreuon yn y byd. Nid ydym yn teimlo i ni gael digon o dystiolaeth i wneud argymhellion penodol yn y maes hwn. Yn hytrach, rydym o'r farn y dylid archwilio darpariaeth o'r fath yn llawn wrth ddatblygu'r strategaeth ddiwylliant newydd.

**Argymhelliad 9**

Wrth ymgynghori ar y strategaeth ddiwylliant newydd, rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y cyfyngiadau ariannol a'r rhwystrau eraill y mae artistiaid yn eu hwynebu.

125. Er nad oes amheuaeth bod cefnogaeth ar gael i artistiaid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru - yn wir roedd pob un o'r ymarferwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am y rhyngweithio a oedd rhyngddynt â'r cyrff hyn - cawsom wybod mai'r artist ei hun sy'n llwyr gyfrifol am chwilio am arian a datblygu ei waith, ac mai galluogi yw rôl y Cyngor Prydeinig a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn hytrach na rhoi cychwyn ar bethau.[81]

126. Yn ogystal, mae'n anodd osgoi'r ffaith bod Cymru'n wlad fach sy'n wynebu heriau o safbwynt gofodol. Mae hyn yn dod a'i broblemau ei hun, nid lleiaf yr anawsterau a wynebir gan artistiaid sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r brifddinas ac sy'n cael eu gwthio i'r cyrion oherwydd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus.[82] Does dim amheuaeth bod hyn yn achosi anawsterau o ran sicrhau'r màs critigol o gymorth ac anogaeth y mae eu hangen i greu gwaith o ansawdd.

127. Yn anffodus, o ganlyniad i'r rhwystrau hyn, mae'n ymddangos bod nifer o artistiaid yn dewis gadael Cymru i barhau â'u huchelgeisiau artistig, yn enwedig y sawl sydd ar risiau canol yr ysgol.

128. Mae pob un ohonom yn wynebu adegau anodd yn ariannol, ac mae'r pwysau ar y gymuned greadigol yng Nghymru'n sylweddol iawn. Bydd effaith y wasgfa ariannol a'r ffaith bod arian y loteri'n cael ei ddargyfeirio i'r Gemau Olympaidd yn Llundain yn golygu caledi pellach i nifer o artistiaid a chwmnïau sy'n wynebu costau uchel ac incwm sy'n aml yn ansicr ac yn

---

[80] Stefhan Caddick – tystiolaeth lafar 12.02.09
[81] Stefhan Caddick – tystiolaeth lafar 12.02.09
[82] Peter Finnemore – tystiolaeth lafar 12.02.09

anghyson. Rydym wedi'n calonogi gan y ffaith bod y Cyngor Prydeinig yn cynyddu ei bresenoldeb yng Nghymru a lefel bresennol y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer ymarferwyr Cymru yn ei raglenni, ac rydym yn gobeithio y bydd yr Uwch-ymgynghorydd a benodwyd yn ddiweddar yn sicrhau bod gan gymuned artistig Cymru rôl gadarn a rhan bwysig i'w chwarae yng ngweithgareddau'r Cyngor Prydeinig.

129. Cawsom ein calonogi hefyd gan y sylwadau cadarnhaol a gafwyd gan sefydliadau ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes y celfyddydau ynghylch gwaith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, yn enwedig y wybodaeth fewnol a'r brwdfrydedd sydd gan y staff a'r gwaith caled y maent yn ei wneud. Er nad oedd llawer i'w feirniadu am waith y sefydliad, rydym o'r farn y gallai wella ei ddulliau cyfathrebu a marchnata er mwyn cyrraedd mwy o bobl trwy ddefnyddio cyflwyniadau, diwrnodau agored a llythyrau newyddion er enghraifft.

**Argymhelliad 10**

Rydym yn argymell bod Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n ystyried sut y gallant fod yn fwy rhagweithiol wrth farchnata eu gwasanaethau er mwyn ymwneud â'r ymarferwyr hynny sy'n gweithio ym maes y celfyddydau o ddydd i ddydd.

130. Rydym yn cydnabod nad oes gan ymarferwyr y celfyddydau'r sgiliau ymarferol bob amser i fynd â'u gwaith dramor. Mae'n bosibl y bydd artistiaid sydd wedi'u sefydlu hyd yn oed, nad oes angen cymorth ariannol ein sefydliadau celfyddydau arnynt, yn cydnabod weithiau y gallai cymorth diplomyddol wneud gwahaniaeth mawr i godi eu proffil dramor, neu helpu i hwyluso'r llwybr trwy'r tollau. Rydym hefyd o'r farn y gallai ffynhonnell wybodaeth ganolog ar gyfer artistiaid yng Nghymru fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

**Argymhelliad 11**

Rydym yn argymell bod Celfyddydau Rhyngwladol Cymru'n darparu ac yn marchnata gwasanaeth cymorth sydd â'r nod o ddarparu cyngor a chymorth diplomyddol i helpu artistiaid i ymdrin â'r anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â mynd â'u gwaith dramor.

**Atodiad 1**

## Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor

| Cyflwynydd | Sefydliad | Cyfeirnod paragraffau yn y trawsgrifiad |
|---|---|---|
| **3 Rhagfyr 2008** | | |
| • Kevin Higgins, Cyfarwyddwr<br>• Louise Wright, Uwch Gynghorwr, Celfyddydau, y Diwydiannau Creadigol a'r Cyfryngau Newydd<br>• Rebecca Walton, Cyfarwyddwr dros dro, y Celfyddydau, y Cyngor Prydeinig | Cyngor Prydeinig Cymru | 6 - 147 |
| • Eluned Haf, Cyfarwyddwr<br>• David Alston, Cyfarwyddwr y Celfyddydau | Celfyddydau Rhyngwladol Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru | 6 - 147 |
| **15 Ionawr 2009** | | |
| • Frances Medley | FM Consultancy | 7 – 85 |
| • John Fisher, Cyfarwyddwr Cyffredinol<br>• Peter Bellingham, Cyfarwyddwr Gweithredol | Opera Cenedlaethol Cymru | 86 - 172 |

| Cyflwynydd | Sefydliad | Cyfeirnod paragraffau yn y trawsgrifiad |
|---|---|---|
| **29 Ionawr 2009** | | |
| • Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth<br>• Jo Jones, Cyfarwyddwr, Twristiaeth a Marchnata<br>• Marie Knox, Pennaeth Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon<br>• Gary Davies, Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol | Llywodraeth Cymru | 3 - 106 |
| • Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol<br>• Michael Tooby, Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglenni | Amgueddfa Cymru | 107 - 174 |
| • Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru<br>• Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd | BBC | 177 - 234 |
| **12 Chwefror 2009** | | |
| • Stefhan Caddick<br>• Simon Burgess, Urdd Gwneuthurwyr Cymru<br>• Peter Finnemore | | 4 - 90 |
| • Alison Woods, Cyfarwyddwr Gweithredol | Syrcas NoFitState | 91 - 163 |

| Cyflwynydd | Sefydliad | Cyfeirnod paragraffau yn y trawsgrifiad |
|---|---|---|
| • Paul Davies, Cyfarwyddwr Artistig | Theatr Volcano | 91 - 163 |
| • Yr Athro Michael Scott, Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr<br>• Andrew Parry, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chynghorydd Gweithredol<br>• Derek Lawther, DeonYsgol Gelf, y Cyfryngau a Dylunio Casnewydd<br>• Geraint Cunnick, Pennaeth Celfyddyd Gain a Ffotograffiaeth | Prifysgol Glyndŵr<br><br>Prifysgol Cymru, Casnewydd | 164 - 240 |
| **26 Chwefror 2009** | | |
| • Andrew Green, Llyfrgellydd | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 2 - 57 |
| • Peter Finch, Prif Weithredwr<br>• Lleucu Siencyn, Dirprwy<br>• Elinor Robson, Rheolwr Busnes | Academi | 58 - 141 |
| • Elin Haf Gruffydd Jones, Cyfarwyddwr<br>• Catrin Ashton, Swyddog Prosiectau, Cyfnewidfa Lên Cymru, Llenyddiaeth ar draws ffiniau | Sefydliad Mercator ar gyfer Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant, Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Prifysgol Aberystwyth | 142- 193 |

## Atodiad 2

## Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor

Y Cyngor Prydeinig
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Strategaeth 5 mlynedd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Dot CYM
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
FM Consultancy
Cyngor Llyfrau Cymru
Academi
Peter Finnemore
Urdd Gwneuthurwyr Cymru
Sefydliad Siartredig Marchnata
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Gŵyl Theatr Ryngwladol Cymru i Gynulleidfaoedd Ifanc
Biennale Venice
David Petersen
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Angela Swann
Syrcas NoFit State
Traude Allison Rogers
Fforwm Crefft Cymru
Ensemble Cymru
Christine Willison
Dr Jeni Williams
Prifysgol Glyndŵr
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Michael Cousin
Stefhan Caddick
Theatr Genedlaethol Cymru
Celfyddydau Gwirfoddol Cymru
Opera Cenedlaethol Cymru
Gŵyl y Gelli
Theatr Volcano
Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Amgueddfa Cymru
BBC
Sefydliad Mercator – Prifysgol Aberystwyth

**Atodiad 3**

## Rhestr o bapurau'r Pwyllgor

| Dyddiad | Enw'r sefydliad | Cyfeirnod y Papur |
|---|---|---|
| 19 Tachwedd 2008 | Gwasanaeth y Pwyllgorau | CC(3)-21-08 - Papur 1 |
| 3 Rhagfyr 2008 | Cyngor Prydeinig Cymru | CC(3)-22-08 – Papur 1 |
| 3 Rhagfyr 2008 | Celfyddydau Rhyngwladol Cymru | CC(3)-22-08 - Papur 2<br>CC(3)-22-08 – Papur 2a |
| 3 Rhagfyr 2008 | Cyngor Celfyddydau Cymru | CC(3)-22-08 – Papur 3 |
| 15 Ionawr 2009 | FM Consultancy | CC(3)-01-09 - Papur 1 |
| 15 Ionawr 2009 | Opera Cenedlaethol Cymru | CC(3)-01-09 – Papur 2 |
| 29 Ionawr 2009 | Llywodraeth Cymru | CC(3)-02-09 - Papur 1 |
| 29 Ionawr 2009 | Amgueddfa Cymru | CC(3)-02-09 - Papur 2 |
| 29 Ionawr 2009 | BBC | CC(3)-02-09 - Papur 3 |
| 12 Chwefror 2009 | Stefhan Caddick | CC(3)-03-09 - Papur 1 |
| 12 Chwefror 2009 | Syrcas NoFitState | CC(3)-03-09 - Papur 2 |

| | | |
|---|---|---|
| 12 Chwefror 2009 | Theatr Volcano | CC(3)-03-09 - Papur 3 |
| 12 Chwefror 2009 | Prifysgol Glyndŵr | CC(3)-03-09 - Papur 4 |
| 12 Chwefror 2009 | Prifysgol Cymru, Casnewydd | CC(3)-03-09 - Papur 5 |
| 12 Chwefror 2009 | Simon Burgess, Urdd Gwneuthurwyr Cymru | CC(3)-03-09 - Papur 6 |
| 12 Chwefror 2009 | Peter Finnemore | CC(3)-03-09 - Papur 7 |
| 26 Chwefror 2009 | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | CC(3)-04-09 - Papur 1 |
| 26 Chwefror 2009 | Academi | CC(3)-04-09 - Papur 2 |
| 26 Chwefror 2009 | Sefydliad Mercator ar gyfer Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant, Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Prifysgol Aberystwyth | CC(3)-04-09 - Papur 3 |

**Gellir gweld copïau o'r holl Bapurau a thrawsgrifiadau yn:**

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-ccc-home.htm